legal services COMMISSION

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Chief Executives, Local Authorities;
Welsh Local Government Association;
Wales Council for Voluntary Action;
Independent Advice Providers Forum;
Law Society.

25 March 2009

Dear Colleague,

ADVICE PROVISION IN WALES

We are writing to update you on the current situation regarding the implementation of the LSC/Welsh Assembly Government document "Making Legal Rights a Reality in Wales".

Background

The Welsh Assembly Government is committed to having a comprehensive, high quality advice service in place across all of Wales. This is why we have been working with the Legal Services Commission to deliver "Making Legal Rights a Reality in Wales".

The Assembly Government supported this vision for three main reasons, namely that it:

i) Offered the prospect of a comprehensive, generic advice services across Wales addressing existing issues of geographical spread and access;

ii) Aimed to improve access to specialist advice which was presently not available across local authority areas or in all categories of advice; and

iii) Would provide an end-to-end, seamless pathway for the user.

However the Assembly Government recognised that concerns had been increasing about the possible loss of investment in third sector organisations and their potential closure as a result of the proposed new joint commissioning arrangements. Toward the end of 2008 the Minister for Social Justice and Local Government held a round of discussions with the key agencies involved to see if there was another way forward.

Assembly Government Feasibility Study

The Assembly Government is now commissioning a feasibility study to establish whether there could be an alternative advice services commissioning model for local authority and Assembly Government funding that would meet the aims of "Making Legal Rights a Reality in Wales" without compromising the future of third sector providers.

Any new arrangements would need to address the acknowledged weaknesses in current advice provision - in terms of geographical coverage, access to all categories of advice and quality of provision - for the public to benefit and it is recognised that this change may prove to be radical for some organisations.

A key element of the work will be to establish how a workable and robust referral model can practically and fully integrate the LSC's contracted services with those commissioned by local authorities and the Assembly Government. It must take into account the contracting restrictions within which the Legal Services Commission must work, i.e. that services must be openly tendered for. The study must consider how the model will apply to both third sector and private sector providers.

The feasibility study will:

- establish if there is a viable, legal alternative to the jointly commissioned CLAN model, taking into account current procurement law and regulation
- develop detailed proposals for an alternative model
- identify the most effective model in terms of local authority funding (sole authority; cross-authority)
- consider appropriate governance and reporting arrangements

Initially the model should focus on the county areas of Bridgend, Cardiff and the Vale of Glamorgan which have been participating in the development of the first CLAN area for Wales. The findings and recommendations of the review should, however, be flexible enough to read across to the other proposed commissioning areas in Wales.

The feasibility study will need to consider the views of:

- the Legal Services Commission
- Bridgend, Cardiff and the Vale of Glamorgan Councils plus at least 3 other local authorities in other parts of Wales (the local authorities currently in discussions about a CLAN in north Wales would be recommended)
- Advice providers in Bridgend, Cardiff and the Vale of Glamorgan and at least 5 other providers in other parts of Wales. This must include third sector and private sector providers
- Advice providers representative organisations. This must include organisations that represent third sector and private sector providers e.g. of Wales Independent Advice Providers Forum and Law Society
- Welsh Assembly Government.

Local Legal Advice Study Task Group

A further factor that has come into play is the establishment, in December 2008, of a cross-sector group, under the chairmanship of Lord Bach, Parliamentary Under-Secretary of State at the Ministry of Justice, to bring together the evidence about the issues currently facing the advice sector on the ground. The supporting study which is due to report in April 2009, will aim to bring together and analyse the available evidence across England and Wales to improve understanding of how legal advice is delivered and funded locally and establish what further information may be needed to inform future decisions.

The Welsh Assembly Government is represented on the Local Legal Advice Study Task Group which is looking at the issues currently facing the advice sector on the ground. We will bear in mind the progress and outcome of this work as we consider the best route forward for advice services in Wales.

Timing

As a result of these developments, there will not be any joint commissioning of CLANs in Wales in April 2010.

Legal Services Commission Position

The existing contracts for the provision of face-to-face civil legal aid advice expire on 31 March 2010. The Legal Services Commission (LSC) consulted on proposals around the types of civil legal aid services it intends to procure under new contracts in the document "*Civil bid rounds for 2010 contracts"*. The consultation closed on 23 January and a total of 365 responses were received. The LSC is now in the process of developing final proposals in light of responses, and plans to publish its consultation response at the end of June. Under EU procurement legislation the LSC is required to procure new contracts through an open and fair process, which provides opportunities for both new and existing providers from all sectors to compete for contracts.

As a result of the delay in joint commissioning it will now be necessary for the LSC to commissioning alone in 2010 and the current timescale for going to tender is September 2009. Historically the LSC has tendered for three-year contracts, however this would mean that joint commissioning would be delayed until 2013. It is therefore likely that the LSC will either tender for shorter contracts in 2010 or for three-year contracts with a break clause that will allow for early termination of contracts where joint commissioning takes place. It is recognised that this creates uncertainty for providers, however at the time of going to tender in September the LSC will not know which, if any, local authorities they will be jointly commissioning with before 2013.

The main changes that have been proposed for 2010 that affect the social welfare law services, ie those legal aid services that would be provided within a CLAN, are the requirement on providers to deliver housing, welfare benefits and debt together not separately, to have an authorised litigator and to have a deliver a minimum number of 100 new matter starts in each category. Consortia bids will be allowed in order to facilitate this transition. There will also be new family fees that are currently subject to consultation.

At the same time as publishing the final proposals for 2010 contracts, the LSC will also publish procurement plans detailing the services that will be tendered in September. It is likely that the LSC will commission services in the eight regional procurement areas identified in “Making Legal Rights a Reality in Wales”.

Future proposals for joint commissioning will be informed by the outcome of the Assembly Government’s feasibility study and the report by the Local Legal Advice Study Task Group. It is hoped that this will be available before the LSC goes out to tender in early September.

Yours sincerely,

CAROLINE TURNER
DIRECTOR
COMMUNITIES DIRECTORATE

PAUL NEWELL
HEAD OF CIVIL POLICY DEVELOPMENT
LEGAL SERVICES COMMISSION

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Swyddfa Merthyr Tudful/ Merthyr Tydfil Office
Rhyd-y-Car/ Rhydycar
Merthyr Tudful/ Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
Ffon/Tel: 01685 729277

COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Prif Weithredwyr, Awdurdodau Lleol;
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru;
Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol;
Cymdeithas y Gyfraith

25 Mawrth 2009

Annwyl Gydweithiwr,

DARPARU CYNGOR YNG NGHYMRU

Rydym yn ysgrifennu atoch i esbonio'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithredu dogfen LSC/Llywodraeth Cynulliad Cymru "Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru".

Cefndir

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i sicrhau fod gwasanaeth cynghori cynhwysfawr o ansawdd uchel yn weithredol ar draws Cymru. Dyna pam rydym ni wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) i gyflenwi "Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru".

Mynegodd Llywodraeth y Cynulliad ei chefnogaeth i'r weledigaeth hon am dri rheswm, fel a ganlyn:

i) Am ei bod yn cynnig sefydlu gwasanaethau cynhwysfawr, generig ar draws Cymru gan fynd i'r afael â phroblemau taeniad daearyddol a mynediad;

ii) Oherwydd mai'r bwriad oedd gwella mynediad at gyngor arbenigol nad oedd ar gael ar y pryd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol neu ym mhob categori o gyngor; a

iii) Byddai'n darparu llwybr dirwystr o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer defnyddwyr.

Fodd bynnag roedd Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod pryderon wedi bod yn cynyddu ynglŷn â'r posibilrwydd o golli buddsoddiad mewn cyrff trydedd sector a'r posibilrwydd y byddent yn cau o ganlyniad i'r cyd-

drefniadau comisiynu newydd. Tua diwedd 2008 cynhaliodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol rownd o drafodaethau â'r asiantaethau allweddol perthnasol i weld a oedd ffordd arall o symud ymlaen.

Astudiaeth Dichonolrwydd Llywodraeth y Cynulliad

Nawr, mae Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu astudiaeth dichonolrwydd i weld a fyddai modd cael model amgen ar gyfer comisiynu gwasanaethau cyllid awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad a fyddai'n diwallu amcanion "Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru" heb gyfaddawdu dyfodol darparwyr trydedd sector.

Byddai angen i unrhyw drefniadau newydd fynd i'r afael â gwendidau cydnabyddedig yn y ddarpariaeth cyngor cyfredol – yn nhermau cwmpas daearyddol, mynediad at bob categori o gyngor ac ansawdd y ddarpariaeth – er budd y cyhoedd, a chydnabyddir y gallai'r newid hwn brofi'n radical i rai cyrff.

Elfen allweddol o'r gwaith fydd canfod sut gall model cyfeirio ymarferol a chadarn integreiddio gwasanaethau cytundebol LSC yn llawn ac yn ymarferol â'r rheini a gomisiynir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r cyfyngiadau cytundebol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol weithio oddi mewn iddynt, h.y. bod rhaid tendro'n agored am wasanaethau. Rhaid i'r astudiaeth ystyried sut y byddai'r model yn gymwys i ddarparwyr trydedd sector a sector breifat.

Bydd yr astudiaeth dichonolrwydd yn gwneud y canlynol:

- canfod a oes dewis cyfreithiol amgen hyfyw i'r model cyd-gomisiynu CLAN, gan roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth a rheoliadau caffael cyfredol
- datblygu cynigion manwl am fodel amgen
- dynodi'r model mwyaf effeithiol yn nhermau cyllid awdurdodau lleol (awdurdod unigol; trawsawdurdod)
- ystyried trefniadau llywodraethu ac adrodd

I ddechrau dylai'r model ganolbwyntio ar ardaloedd siroedd Pen-y-bont, Caerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r ardal CLAN gyntaf yng Nghymru. Fodd bynnag dylai canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad fod yn ddigon hyblyg i ddarllen ar draws i ardaloedd comisiynu arfaethedig eraill yng Nghymru.

Bydd angen i'r astudiaeth dichonolrwydd ystyried barn y canlynol:

- y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
- cynghorau Pen-y-bont, Caerdydd a Bro Morgannwg ynghyd ag o leiaf 3 awdurdod lleol arall mewn rhannau eraill o Gymru (argymhellir yr awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd yn trafod CLAN yng ngogledd Cymru)
- Darparwyr cyngor ym Mhen-y-bont, Caerdydd a Bro Morgannwg ac o leiaf 5 darparwr arall mewn rhannau eraill o Gymru. Rhaid i'r rhain gynnwys darparwyr trydedd sector a sector breifat.
- Cyrff sy'n cynrychioli darparwyr cyngor. Rhaid i hyn gynnwys cyrff sy'n cynrychioli darparwyr trydedd sector a sector breifat e.e. Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol Cymru a Chymdeithas y Gyfraith.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Grŵp Gorchwyl Astudio Cyngor Cyfreithiol Lleol

Ffactor arall sydd wedi amlygu'i hun yw bod grŵp traws-sector wedi'i sefydlu ym mis Rhagfyr 2008, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Bach, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, i gasglu'r dystiolaeth am y materion sy'n wynebu'r sector gynghori ar lawr gwlad. Bydd yr astudiaeth ategol, y disgwylir iddi adrodd ym mis Ebrill 2009, yn ceisio tynnu'r dystiolaeth sydd ar gael ar draws Cymru a Lloegr ynghyd a'i dadansoddi er mwyn gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyngor cyfreithiol yn cael ei gyflenwi a'i ariannu'n lleol a chanfod pa wybodaeth arall a allai fod yn angenrheidiol er mwyn cynorthwyo â phenderfyniadau yn y dyfodol.

Cynrychiolir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Grŵp Gorchwyl Astudio Cyngor Cyfreithiol Lleol sy'n edrych ar y materion sydd ar hyn o bryd yn wynebu'r sector cynghori ar lawr gwlad. Byddwn yn cadw golwg ar gynnydd a chanlyniadau'r gwaith hwn wrth i ni ystyried y ffordd orau ymlaen ar gyfer gwasanaethau cynghori yng Nghymru.

Amseru

O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, ni fydd unrhyw gyd-gomisiynu CLANau yng Nghymru ym mis Ebrill 2010.

Sefyllfa'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r contractau cyfredol ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol sifil wyneb yn wyneb yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010. Bu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yn ymgynghori ar gynigion am y mathau o wasanaethau cymorth cyfreithiol sifil y mae'n bwriadu eu caffael o dan gontractau newydd yn y ddogfen "*Civil bid rounds for 2010 contracts"*. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Ionawr a chafwyd cyfanswm o 365 o ymatebion. Mae'r LSC nawr wrthi'n datblygu cynigion terfynol yng ngoleuni'r ymatebion ac mae'n bwriadu cyhoeddi ei ymateb i'r ymgynghoriad ddiwedd mis Mehefin. Dan ddeddfwriaeth caffael yr UE mae'n ofynnol i LSC gaffael contractau newydd drwy broses agored a theg, sy'n cynnig cyfleoedd i ddarparwyr cyfredol a rhai newydd gystadlu am gontractau.

Yn sgil yr oedi o ran cyd-gomisiynu, bydd nawr yn ofynnol i'r LSC gomisiynu ar ei ben ei hun yn 2010 a'r amserlen bresennol ar gyfer mynd i dendr yw mis Medi 2009. Yn hanesyddol mae'r LSC wedi tendro am gontractau tair blynedd, fodd bynnag byddai hyn yn golygu y byddai cyd-gomisiynu'n cael ei ddal yn ôl tan 2013. Mae'n debygol felly y bydd yr LSC naill ai'n tendro am gontractau byrrach yn 2010 neu am gontractau tair blynedd gyda chymal torri fydd yn caniatáu ar gyfer terfynu contractau'n gynnar lle bydd cyd-gomisiynu'n digwydd. Cydnabyddir bod hyn yn creu ansicrwydd i'r darparwyr, fodd bynnag ar yr adeg y bydd yn mynd i dendr ym mis Medi, ni fydd yr LSC yn gwybod pa awdurdodau lleol, os o gwbl, y bydd yn cyd-gomisiynu â hwy cyn 2013.

Y prif newidiadau a gynigiwyd ar gyfer 2010 sy'n effeithio ar y gwasanaethau lles cyfreithiol, h.y. y gwasanaethau cymorth cyfreithiol hynny a fyddai'n cael eu cyflenwi o fewn CLAN, yw'r gofyniad ar ddarparwyr i gyflenwi tai, budd-daliadau lles a dyled gyda'i gilydd ac nid ar wahân, bod â chyfreithiwr awdurdodedig a chyflenwi isafswm o 100 achos newydd ym mhob categori.

Caniateir cynigion gan gonsortia er mwyn hwyluso'r trawsnewid hwn. Hefyd bydd ffioedd teulu newydd sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori.

Ar yr un pryd â chyhoeddi'r cynigion terfynol ar gyfer contractau 2010, bydd LSC hefyd yn cyhoeddi cynlluniau caffael fydd yn cynnwys manylion y gwasanaethau a gaiff eu tendro ym mis Medi. Mae'n debygol y bydd yr LSC yn comisiynu gwasanaethau yn yr wyth ardal caffael ranbarthol a nodir yn "Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru".

Bydd cynigion yn y dyfodol ar gyfer cyd-gomisiynu yn cael eu harwain gan ganlyniad astudiaeth dichonolrwydd Llywodraeth y Cynulliad a'r adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl Astudio Cyngor Cyfreithiol. Y gobaith yw y bydd hwn ar gael cyn i'r LSC fynd i dendr yn gynnar ym mis Medi.

Yn gywir

CAROLINE TURNER
CYFARWYDDWR
Y GYFARWYDDIAETH GYMUNEDAU

PAUL NEWELL
PENNAETH DATBLYGU POLISI SIFIL
Y COMISIWN GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Swyddfa Merthyr Tudful/ Merthyr Tydfil Office
Rhyd-y-Car/ Rhydycar
Merthyr Tudful/ Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
Ffon/Tel: 01685 729277
Ebost/ Email: caroline.turner@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE